Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyllideb Ddrafft 2027–28
Datganiad Effaith y Gyllideb

Tachwedd 2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55577, ISBN digidol 978-1-80853-763-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Rhagair gan y Gweinidog Cabinet dros Gyllid

Mae gan y llywodraeth hon uchelgais newydd i Gymru. Gan ganolbwyntio'n llwyr ar y blaenoriaethau a nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn cryfhau gwasanaethau cyhoeddus, yn tyfu ein heconomi ac yn gwella bywydau pobl. Mae defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol yn ganolog i gyflawni'r uchelgais hwnnw a sicrhau canlyniadau gwell i bobl ledled Cymru.

Fel llywodraeth newydd, roeddem wedi etifeddu pwysau gwariant sylweddol ar draws sawl elfen o'n Cyllideb eleni, yn ogystal â gostyngiad mewn termau real y flwyddyn nesaf. Mae ein gwasanaethau cyhoeddus, a'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt, o dan straen sylweddol oherwydd chwyddiant uwch. Nid oedd Cyllideb Hydref Llywodraeth y DU wedi ymateb yn ddigonol i'r pwysau hynny. O ganlyniad, rhaid inni wneud penderfyniadau anodd.

Dyna pam mae'r Datganiad hwn ar Effaith y Gyllideb yn hanfodol. Mae'n ein helpu i ddeall canlyniadau ein dewisiadau gwario, canfod ble mae'r effeithiau mwyaf, ac ystyried sut gellir osgoi neu liniaru effeithiau niweidiol lle bynnag y bo modd. Drwy ddwyn ynghyd tystiolaeth o bob rhan o'r llywodraeth, mae hefyd yn ein helpu i ddeall sut gall effeithiau penderfyniadau unigol gydgrynhoi a lle gallai grwpiau neu gymunedau penodol brofi effeithiau niferus.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn gyfle o'r newydd i Lywodraeth newydd yng Nghymru ddechrau o'r dechrau ac ailgyfeirio gwariant tuag at ein blaenoriaethau. Mae ein ffocws ar ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi pobl sy'n wynebu pwysau costau byw, mynd i'r afael â thlodi plant, buddsoddi yn ein heconomi a darparu cymorth wedi'i dargedu i fusnesau. Rydym hefyd eisiau symud adnoddau tuag at ddarpariaeth rheng flaen, ennyn mwy o effeithlonrwydd a chanolbwyntio'n llwyr ar ganlyniadau ein gwariant.

Mae'r asesiad hwn wedi cyfrannu at y dewisiadau rydym wedi'u gwneud wrth lunio'r Gyllideb Ddrafft. Mae wedi ein helpu i nodi lle gallai'r effeithiau posibl daro fwyaf, lle gellid newid y cynigion, a lle gallai buddsoddiad ychwanegol helpu i osgoi neu liniaru effeithiau niweidiol. Nid ydym wedi gallu dileu pob effaith, ac mae'r datganiad hwn yn dryloyw ynghylch lle mae'r pwysau a'r risgiau'n parhau.

Mae'r realiti ariannol a wynebwn yn golygu na allwn osgoi pob dewis anodd na dileu pob effaith niweidiol. Ond gallwn wneud y dewisiadau hynny gyda dealltwriaeth glir o'u canlyniadau, cymryd camau i liniaru effeithiau lle bynnag y bo modd, a bod yn dryloyw ynghylch y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud. Dyna'r dull gweithredu sydd gennym mewn golwg wrth i ni ddechrau o'r dechrau gyda gwariant cyhoeddus gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a chyflawni ein huchelgais ar gyfer Cymru.

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Y Gweinidog Cabinet dros Gyllid

Tabl Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Cabinet dros Gyllid 2

Cyflwyniad 3

Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2027–28 5

Sylfaen Dystiolaeth 6

Effeithiau Penderfyniadau Allweddol 9

Effeithiau trawsbynciol 15

Penderfyniadau Gwario ag iddynt Effeithiau Negyddol neu Anghymesur 17

Astudiaethau Achos 19

Y Camau Nesaf 23

Cyflwyniad

Mae llawer mwy i Gyllideb na dim ond yr arian rydym yn ei wario. Mae'n ymwneud â'r gwahaniaeth y mae'r dewisiadau hynny'n ei wneud i fywydau pobl, i gymunedau ac i leoedd ledled Cymru. Mae deall effaith y dewisiadau hynny wedi bod wrth galon y gwaith o lunio Cyllideb Ddrafft 2027-28 i 2029-30. Mae Datganiad Effaith y Gyllideb yn dwyn ynghyd dystiolaeth o bob rhan o'r llywodraeth i'n helpu i ddeall sut gall dewisiadau yn y Gyllideb effeithio ar wahanol bobl, cymunedau a lleoedd ledled Cymru, gan gydnabod nad yw'r effeithiau hynny'n cael eu profi ar eu pen eu hunain, ond eu bod yn gallu cronni a rhyngweithio ar draws gwahanol feysydd gwariant.

Mae Datganiad Effaith y Gyllideb yn disodli'r Asesiad Effaith Integredig Strategol blaenorol gan gynnig dull cliriach o asesu effaith y Gyllideb Ddrafft. Er bod Asesiadau Effaith Integredig unigol yn chwarae rhan bwysig o ran archwilio effeithiau manwl polisïau a phenderfyniadau gwario unigol, mae'r datganiad hwn yn fwriadol yn cymryd safbwynt gwahanol: mae'n camu'n ôl o benderfyniadau unigol i ystyried y Gyllideb yn ei chyfanrwydd. Mae'n edrych ar effaith gronnol ein prif ddewisiadau gwario, lle rydym wedi blaenoriaethu ein buddsoddiad, lle mae cyllid yn fwy cyfyngedig, a beth allai'r patrwm gwariant dilynol ei olygu i bobl, i gymunedau ac i leoedd ledled Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r asesiadau hyn cynnig safbwyntiau gwahanol ond ategol: drwy roi ystyriaeth fanwl o bolisïau a rhaglenni unigol mewn Asesiadau Effaith Integredig, ochr yn ochr â dealltwriaeth ehangach o effaith blaenoriaethu a chydbwyso cyllid ar draws prif feysydd gwariant y llywodraeth.

Mae'r asesiad hwn wedi bod yn rhan bwysig o lunio'r Gyllideb Ddrafft. Mae wedi ein helpu i edrych y tu hwnt i benderfyniadau gwariant unigol er mwyn deall eu heffaith gronnol, gan gynnwys lle

gallai nifer o benderfyniadau effeithio ar yr un grwpiau neu ganlyniadau. Mae hyn wedi galluogi Gweinidogion i ystyried effeithiau posibl ochr yn ochr ag uchelgeisiau'r llywodraeth i ailflaenoriaethu gwariant, i ganolbwyntio adnoddau ar ganlyniadau a darpariaeth rheng flaen, ac i ennyn mwy o effeithlonrwydd ar draws y llywodraeth. Mae ailflaenoriaethu gwariant yn golygu bod yn rhaid i wariant presennol ddod i ben mewn rhai achosion. Ac mewn rhai meysydd, mae'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwaith ar Effaith y Gyllideb wedi llywio penderfyniadau i newid arbedion arfaethedig neu ddarparu buddsoddiad ychwanegol i liniaru'r effeithiau a nodwyd.

Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni ailosod cynlluniau gwariant ar gyfer tymor newydd o lywodraeth. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a fydd, ym marn Gweinidogion, yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl, gan gynnwys gwella iechyd a gofal, cefnogi aelwydydd gyda chostau byw, creu swyddi da, codi safonau yn ein hysgolion, a mynd i'r afael â thlodi plant. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn dechrau'r broses o gysoni ein hadnoddau wrth gefn y blaenoriaethau hynny a'r canlyniadau rydym am eu sicrhau i Gymru.

Mae'r ffaith fod hon yn gyllideb dros nifer o flynyddoedd yn bwysig i'r dull gweithredu hwnnw. Mae gosod cynlluniau adnoddau dros ddwy flynedd a chynlluniau cyfalaf dros dair blynedd yn rhoi sylfaen gryfach ar gyfer cynllunio, buddsoddi a chyflawni yn y tymor hirach, ac yn caniatáu i ni ddechrau rhoi gwedd newydd ar wariant yn ystod cyfnod y llywodraeth hon. Fodd bynnag, er ein bod wedi rhoi sylw i gynlluniau gwariant dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae'r Datganiad hwn ar Effaith y Gyllideb yn canolbwyntio'n bennaf ar y penderfyniadau gwario ar gyfer 2027-28. Ar hyn o bryd, nid oes digon o fanylion ynghylch sut bydd yr holl gyllid yn cael ei ddyrannu a'i ddarparu yn y blynyddoedd wedyn er mwyn asesu effeithiau hynny gyda'r un graddau o hyder. Wrth i benderfyniadau gwario yn y dyfodol gael eu datblygu ymhellach a dod yn gliriach, rhaid dal ati i ystyried eu heffeithiau.

Mae ein dull gweithredu'n ymgorffori'r ffyrdd o weithio a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae edrych ar draws y Gyllideb yn ein helpu i ystyried y cysylltiadau rhwng gwahanol benderfyniadau a chanlyniadau, eu heffeithiau tymor hirach a phwysigrwydd yr agenda atal. Mae'n cyd-fynd â'n hystyriaeth o gydraddoldeb a chyfrifoldebau statudol a pholisi eraill.

Mae'r asesiad yn barhaus ac yn datblygu ochr yn ochr â'r Gyllideb ei hun. Felly, mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu ein hasesiad o benderfyniadau gwario 2027-28 adeg cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft. Mae'n darparu'r sail ar gyfer craffu ac ymgysylltu pellach. Bydd hynny'n ein helpu i brofi ein hasesiad, i gryfhau'r dystiolaeth ac i ystyried a oes angen rhagor o fesurau lliniaru.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig Datganiad Effaith y Gyllideb ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol, gan nodi sut mae ein hasesiad wedi datblygu ac adlewyrchu unrhyw newidiadau i becyn y Gyllideb.

Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2027–28

Mae hon yn Gyllideb gadarnhaol ac uchelgeisiol, a luniwyd mewn cyd-destun ariannol anodd. Gyda thoriadau termau real mewn cyllid cyfalaf ac adnoddau, rydym wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd o ran ble gall symiau cyfyngedig o arian cyhoeddus wneud y gwahaniaeth mwyaf. Wrth wneud y dewisiadau hynny, rydym wedi ceisio diogelu'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt fwyaf a chyfeirio adnoddau tuag at y bobl, y cymunedau a'r gwasanaethau sy'n wynebu'r pwysau mwyaf.

Mae'r Gyllideb hon yn gyfle i ddechrau o'r dechrau gyda gwariant y llywodraeth. Y strategaeth sylfaenol yw bod rhaid dechrau'r gwaith o ail-alinio cyllidebau i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Am y rheswm hwnnw, nid ydym am ddim ond dilyn patrymau gwariant sydd wedi'u hen sefydlu. Rydym yn cymryd agwedd fwriadol i ymdrin â'r modd y defnyddir arian cyhoeddus. Rydym am leihau dyblygu a gwaith gweinyddol diangen, gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a symud adnoddau tuag at wasanaethau rheng flaen. Yn anad dim, byddwn yn canolbwyntio'n llwyr ar ganlyniadau ac a yw ein gwariant yn gwella bywydau pobl.

Mae ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ganolog i hynny. Rydym wedi mynd ati'n fwriadol i warchod gwasanaethau iechyd rhag y gwaethaf o'r pwysau ariannol, gan gydnabod maint y galw sy'n wynebu'r GIG a phwysigrwydd bod cleifion yn gallu cael gofal pan fydd ei angen arnynt. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd cyllid ychwanegol ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â'r holl heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu. Ochr yn ochr â buddsoddi, rhaid diwygio, sicrhau cynhyrchiant uwch a rhoi ffocws cryfach ar atal os ydym am adeiladu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Gwyddom fod penderfyniadau ynghylch gwariant cyhoeddus yn cael effaith wirioneddol ar bobl ac ar gymunedau. Rydym nid yn unig wedi ystyried penderfyniadau gwario unigol, ond hefyd sut gall eu heffeithiau gyfuno, gan gynnwys ble allai nifer o benderfyniadau effeithio ar yr un bobl neu'r un cymunedau. Mae hyn wedi ein helpu i ganfod lle gallai'r effeithiau fod yn arbennig o sylweddol ac mae wedi arwain penderfyniadau i newid rhai cynigion, i ddiogelu meysydd gwariant ac i dargedu buddsoddiad ychwanegol.

Mae'r dull hwnnw'n bwysig oherwydd nid yw dewisiadau anodd yn effeithio ar bawb yn gyfartal. Wrth ailflaenoriaethu gwariant, rydym wedi rhoi sylw penodol i ble y gall buddsoddiad cyhoeddus gael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr effeithiau ar bobl sy'n profi tlodi, plant a phobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl hŷn, cymunedau gwledig, ac eraill a allai wynebu rhwystrau neu anfantais benodol. Rydym wedi ceisio gwneud dewisiadau sy'n cefnogi ein blaenoriaethau a, chyn belled ag y bo modd, osgoi neu leihau effeithiau anghymesur.

Dechrau'r newid yw hyn, nid y diwedd. Mae Cyllideb aml-flwyddyn yn rhoi cyfle i ni osod y sylfeini ar gyfer rhaglen y llywodraeth ac ail-lunio gwariant yn raddol dros y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn parhau i herio sut mae arian yn cael ei wario, yn buddsoddi yn yr hyn sy'n gweithio ac yn canolbwyntio adnoddau ar y canlyniadau rydym am eu cyflawni i Gymru.

Mae hon hefyd yn Gyllideb Ddrafft. Mae'r cyfnod rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn gyfle pwysig i graffu, ymgysylltu a herio. Byddwn yn gwrando ar y dystiolaeth a gyflwynir drwy'r broses honno, gan fod yn agored i newidiadau lle mae achos cryf dros wneud pethau'n wahanol, a byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol ar draws y Senedd i sicrhau cefnogaeth i Gyllideb sy'n cyflawni ar gyfer pobl a chymunedau ledled Cymru.

Sylfaen Dystiolaeth

Mae tystiolaeth yn rhan bwysig o'n proses gwneud penderfyniadau am y gyllideb. Mae'n ein helpu i ddeall yr amgylchiadau y mae pobl a chymunedau'n byw ynddynt, lle mae anghydraddoldebau eisoes yn bodoli, a lle gallai newidiadau mewn gwariant cyhoeddus gael effeithiau gwahanol neu anghymesur.

Ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi defnyddio ystadegau swyddogol, data gweinyddol, ymchwil a gwaith dadansoddol, gan gynnwys tystiolaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru, y Cyfrifiad, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn ogystal â data ar dlodi, addysg, cyflogaeth, tai ac iechyd. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'n Hunedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, gan fanteisio ar eu harbenigedd i gryfhau ein dealltwriaeth o anghydraddoldebau a phrofiadau gwahanol grwpiau ledled Cymru.

Rydym wedi ategu hyn â thystiolaeth gan sefydliadau allanol, gan gynnwys y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Defnyddir rhagor o dystiolaeth allanol drwy gydol y Datganiad hwn ac yn ein hastudiaethau achos i brofi a chryfhau ein hasesiad o'r penderfyniadau gwario. Gyda'i gilydd, mae'r sefydliadau hyn yn darparu tystiolaeth bwysig ar bwysau cyllidol a demograffig, gwariant cyhoeddus, cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Adolygiad Gwariant Cymru wedi bod yn ffynhonnell ychwanegol bwysig o dystiolaeth a dadansoddiad. Mae gwaith thematig yr Adolygiad ar iechyd, tai, dysgu cynhwysol, trafnidiaeth a'r economi wedi taro golwg tymor hirach a thrawslywodraethol ar rai o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu Cymru. Mae wedi ein helpu i ystyried yr agenda atal a chynaliadwyedd tymor hirach, gan gynnwys sut gall gwario mewn un maes ddylanwadu ar ganlyniadau a'r galw mewn meysydd eraill. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ddulliau tymor hirach o wneud penderfyniadau ariannol a phenderfyniadau am y gyllideb hefyd wedi cyfrannu at ein sylfaen dystiolaeth.

Canolbwyntiwyd yn benodol eleni ar ystyried tystiolaeth am gydraddoldeb ochr yn ochr â thystiolaeth gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, yn hytrach na rhan ar wahân o broses y gyllideb. Rydym yn cydnabod nad yw profiadau pobl yn ffitio'n daclus i gategorïau unigol. Gall nodweddion ac amgylchiadau gwahanol ryngweithio a dwysáu'r rhwystrau neu'r anfanteision a wynebir gan bobl, felly mae ein sylfaen dystiolaeth yn rhoi pwyslais pwysig ar ddeall yr effeithiau croestoriadol hyn.

Defnyddio tystiolaeth drwy gydol proses y Gyllideb

Mae tystiolaeth wedi cyfrannu at lunio'r Gyllideb o'r cychwyn cyntaf. Dros yr haf, fel llywodraeth newydd, fe wnaethom ddechrau adolygu'r gwariant presennol a datblygu ein blaenoriaethau ar gyfer 2027-28 a'r blynyddoedd i ddod. Defnyddiwyd tystiolaeth i ddeall y pwysau ar bobl, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ac i lywio dewisiadau gwario cychwynnol.

Wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer arbedion, ailflaenoriaethu a buddsoddi, casglom dystiolaeth am eu heffeithiau posibl ar draws y llywodraeth. Am y tro cyntaf, fe wnaethom ddatblygu matrics effeithiau cronnol i ystyried sut gallai penderfyniadau ar draws gwahanol feysydd gwariant effeithio ar yr un bobl, yr un cymunedau a'r un canlyniadau. Roedd hyn yn helpu i nodi lle gallai effeithiau grynhoi neu waethygu unrhyw anfanteision presennol.

Cafodd yr asesiad ei ddiweddaru wrth i'r Gyllideb ddatblygu i adlewyrchu newidiadau, mesurau lliniaru a buddsoddiad

ychwanegol. Mae'r matrics yn adnodd byw sydd ar waith a bydd yn parhau i esblygu hyd at y Gyllideb Derfynol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r matrics ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol mewn ffurf sy'n adlewyrchu'r penderfyniadau terfynol a wnaed, gan ddarparu mwy o dryloywder ynghylch ein hasesiad o effeithiau cronnol a sut mae wedi cyfrannu at y patrwm buddsoddi terfynol.

Mae hyn wedi sicrhau nad yw'r dystiolaeth ond yn disgrifio'r effeithiau ar ôl gwneud y penderfyniadau. Mae'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, gan helpu Gweinidogion i ddeall y dewisiadau a'r cyfaddawdu ac i ystyried lle gellid osgoi neu liniaru effeithiau niweidiol.

Tueddiadau yn y Dystiolaeth

Mae cryn dipyn o'r dystiolaeth sy'n sail i'r Datganiad hwn yn dal yn gyson â'r llynedd, ac mae llawer o'r canlyniadau a nodir wedi parhau ers peth amser. Mae'r ffaith eu bod yn dal yna'n arwydd o faint a chymhlethdod yr her sy'n ein hwynebu. Mae un Gyllideb ar ôl y llall wedi buddsoddi adnoddau sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mewn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac eto mae gormod o bobl a chymunedau yng Nghymru yn dal i brofi canlyniadau gwaeth.

Mae hyn yn atgyfnerthu egwyddor bwysig: mae lefel y buddsoddi'n bwysig, ond nid yw buddsoddi ynddo'i hun yn gwarantu canlyniadau gwell. Felly, rydym wedi ceisio edrych y tu hwnt i'r rhagdybiaeth y bydd gwariant ychwanegol bob amser yn cael effaith gadarnhaol, neu y bydd lleihau gwariant yn anochel yn cael effaith negyddol. Mae ein hasesiad hefyd yn ystyried sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio, a yw'r dulliau presennol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, a lle gallai gwneud pethau'n wahanol gael mwy o effaith.

Deall effeithlonrwydd a chanlyniadau

Mae canolbwyntio mwy ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant hefyd yn rhan bwysig o'n dull gweithredu. Dros amser, rydym eisiau gwella ein dealltwriaeth nid yn unig o faint rydym yn ei wario, ond o'r hyn y mae'r gwariant hwnnw'n ei gyflawni, gan gynnwys y berthynas rhwng adnoddau, gweithgarwch a chanlyniadau.

Rydym yn cydnabod nad yw'r dystiolaeth wedi'i datblygu'n ddigonol eto i wneud hyn yn gyson ar draws pob maes llywodraeth. Mae mesur cynhyrchiant y sector cyhoeddus yn gymhleth, yn enwedig lle mae ansawdd a chanlyniadau gwasanaethau yr un mor bwysig â swmp y gweithgarwch a gyflawnir. Yn yr un modd, mae dadansoddiad annibynnol gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) hefyd yn tynnu sylw at fanteision a heriau posibl o wella cynhyrchiant. Byddwn yn parhau i wella'r defnydd o ddata ariannol, data perfformiad a data am ganlyniadau fel y gall penderfyniadau yn y dyfodol gael eu harwain fwyfwy gan dystiolaeth am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Deall y cyfyngiadau

Nid oes yr un sylfaen dystiolaeth yn hollol gyflawn. Mae rhai grwpiau o'r boblogaeth a phrofiadau yn cael eu cynrychioli'n well yn y data sydd ar gael nag eraill, ac ni all ystadegau cenedlaethol bob amser gofnodi gwahaniaethau mewn cymunedau nac effaith gyfun gwahanol fathau o anfantais. Yn ein barn ni, nid yw diffyg tystiolaeth yn golygu na fydd unrhyw effaith bosibl.

Felly, mae ein hasesiad yn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael a'r cyfeiriad tymor hirach. Mae'r adran ganlynol yn nodi rhai o'r pethau pwysicaf y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am bobl, cymunedau ac anghydraddoldebau ledled Cymru, a pham mae'r rhain yn bwysig pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau gwario.

Beth oedd y Dystiolaeth yn ei Ddweud Wrthym

Iechyd

- *Mae cyfran y bobl sy'n dweud bod eu hiechyd yn dda iawn yn gostwng gydag oedran.*
- *Er bod menywod yn byw'n hirach, maent yn treulio llai o amser mewn iechyd da na dynion.*
- *Mae cyfraddau hunanladdiad yn dal i fod dros dair gwaith yn uwch mewn dynion.*

Swyddi ac Incwm

- *Mae menywod, pobl anabl neu bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth.*
- *Mae'r bwlch cyflog rhywedd wedi lleihau.*

Cartrefi

- *Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol ac mewn amodau gorlawn.*
- *Mae pobl o gefndiroedd Gwyn yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi.*
- *Mae pobl o gefndiroedd Du yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent cymdeithasol.*

Addysg

- *Mae merched yn parhau i gael canlyniadau addysgol gwell na bechgyn ar lefel TGAU.*
- *Roedd disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi cael canlyniadau TGAU gwell na disgyblion Gwyn Prydeinig.*
- *Disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a theithwyr oedd â'r canlyniadau addysgol gwaethaf ar lefel TGAU.*

Trafnidiaeth

- *Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddefnyddio bysiau.*
- *Roedd pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol neu gyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol arall yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref, yn eu hardal leol ac wrth deithio.*

Anabledd

- *Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm, yn ddi-waith ac yn wynebu amddifadedd materol.*
- *Roedd pobl anabl sy'n cael eu cyfyngu'n sylweddol gan eu cyflwr ymysg y rhai mwyaf tebygol o ddweud bod eu sefyllfa ariannol yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol.*
- *Mae pobl anabl yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig, yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu cartref, yn eu hardal leol ac wrth deithio, ac maent yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig.*

Ethnigrwydd

- *Mae bylchau amlwg o hyd mewn cyflogau ar sail ethnigrwydd ac anabledd.*
- *Er ei fod yn lleihau, mae yna fwlch o hyd yng nghyfradd gyflogaeth pobl o leiafrifoedd ethnig.*

Rhywedd

- *Nid yw lefelau amddifadedd materol rhwng menywod a dynion yn sylweddol wahanol.*
- *Roedd menywod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref, yn eu hardal leol ac wrth deithio o'i gymharu â dynion.*

Cymunedau LHDTC+

- *Mae canlyniadau iechyd yn amrywio, ond roedd pobl strêt ychydig yn llai tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn.*
- *Roedd pobl sydd â hunaniaeth rhywedd wahanol i'r hyn a gofrestrwyd adeg eu geni yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn wael neu'n wael iawn.*

Crefydd

- *Roedd pobl sy'n ystyried eu hunain yn Hindŵiaid neu bobl heb grefydd yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth na phobl o grwpiau crefyddol eraill.*
- *Pobl sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion sydd fwyaf tebygol o fod yn berchen ar eu cartref, tra bod Mwslimiaid yn fwyaf tebygol o fyw mewn tai rhent ac aelwydydd gorlawn.*

Effeithiau Penderfyniadau Allweddol

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dwyn ynghyd benderfyniadau i fuddsoddi, diogelu, ailflaenoriaethu a lleihau gwariant ar draws y llywodraeth. Ni ellir bob amser deall eu heffeithiau unigol. Gall penderfyniadau mewn meysydd fel tai, iechyd, gofal plant, trafnidiaeth ac addysg effeithio ar yr un bobl a'r un cymunedau a gallant gyfrannu at nifer o wahanol ganlyniadau.

Mae'r adrannau isod yn nodi rhai o effeithiau mwyaf arwyddocaol y penderfyniadau hynny, gan gydnabod effeithiau cadarnhaol buddsoddiad newydd yn ogystal â'r pwysau a'r effeithiau sy'n parhau.

Blaenoriaethu iechyd, gofal ac atal

Iechyd a Gofal sy'n derbyn y dyraniad ychwanegol mwyaf o adnoddau yn y Gyllideb Ddrafft. Mae'r llywodraeth yn darparu £500m ychwanegol ar gyfer y GIG yn 2027–28 a £700m yn 2028–29, yn ogystal â £2bn o fuddsoddiad cyfalaf dros dair blynedd mewn rhaglenni a chyfleusterau iechyd. Mae hyn yn adlewyrchu maint y pwysau ar wasanaethau'r GIG a'r flaenoriaeth y mae'r llywodraeth yn ei rhoi ar leihau amseroedd aros a gwella mynediad at ofal.

Mae rhesymau cydraddoldeb cryf dros flaenoriaethu iechyd. Mae tystiolaeth yn dangos bod canlyniadau iechyd yn amrywio ar draws y boblogaeth. Mae cyfran y bobl sy'n dweud bod eu hiechyd yn dda iawn yn gostwng gydag oedran. Mae menywod yn byw'n hirach na dynion ond yn treulio llai o amser mewn iechyd da, ac mae'r dystiolaeth hefyd yn nodi gwahaniaethau sy'n gysylltiedig ag anabledd, ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae hyn yn golygu y gallai cryfhau gwasanaethau iechyd fod o fudd i'r boblogaeth gyfan, ac y byddai hynny'n eithriadol o bwysig i bobl sy'n profi iechyd gwaeth neu sy'n dibynnu mwy ar wasanaethau cyhoeddus.

Rydym hefyd wedi gwrando'n uniongyrchol ar fudiadau menywod. Wrth ymgysylltu cyn y Gyllideb hon, fe wnaeth Grŵp Cyllideb Menywod Cymru dynnu sylw at bwysau costau byw, rhestrau aros y GIG ac iechyd menywod fel blaenoriaethau, gan bwysleisio pwysigrwydd ystyried effaith gronnol penderfyniadau am y Gyllideb ar fenywod.

Mae hyn yn dangos pam nad yw ein hasesiad yn trin rhywedd fel mater ar ei ben ei hun. Gall menyw brofi'r Gyllideb fel rhiant yn defnyddio gofal plant, gweithiwr GIG neu ofal cymdeithasol, gofalwr, defnyddiwr trafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy gyllid ei haelwyd ei hun ar yr un pryd. Mae deall y cysylltiadau hynny'n hanfodol er mwyn asesu'r Gyllideb yn deg.

Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd ar gyfer y Gyllideb hon hefyd yn dangos na all buddsoddiad yn y GIG ar ei ben ei hun sicrhau canlyniadau iechyd gwell. Canfu Adolygiad Gwariant Cymru fod mwy o anghydraddoldeb ac anghenion mwy cymhleth yn creu pwysau anghynaliadwy ar wasanaethau a chyllidebau'r GIG. Roedd iechyd a gofal cymdeithasol eisoes yn cyfrif am 55% o wariant adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2026-27, ac o safbwynt atal, nid yw 'gwneud dim' yn gynaliadwy.

Mae'r her tymor hirach hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn nadansoddiad annibynnol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), sy'n cydnabod bod newid demograffig a'r galw cynyddol ar iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn rhoi pwysau sylweddol ar wariant cyhoeddus dros y tymor hirach. Mae'r dystiolaeth honno wedi dylanwadu ar sut rydym wedi edrych ar draws y Gyllideb. Gall buddsoddi mewn tai, gofal plant, addysg, diwylliant a chwaraeon i gyd gyfrannu at iechyd a lles, tra bo ymyriadau sy'n atal

digartrefedd, sy'n cefnogi byw'n iachach, neu sy'n galluogi pobl i aros yn annibynnol yn gallu helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau mwy dwys yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae yma densiwn pwysig. Gwelir rhai gostyngiadau o hyd ym maes iechyd y cyhoedd a gweithgarwch ataliol. Felly, mae angen ystyried manteision y buddsoddiad ychwanegol i'r GIG ochr yn ochr â'r risg y gallai lleihau rhai ymyraethau cynnar gynyddu'r galw mewn mannau eraill. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cryfhau'r GIG yn sylweddol, ond mae ein hasesiad yn cydnabod y bydd gwasanaethau iechyd cynaliadwy hefyd yn dibynnu ar waith atal a chamau gweithredu ar draws y llywodraeth.

Cefnogi llywodraeth leol a'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt

Awdurdodau lleol sy'n darparu llawer o'r gwasanaethau a brofir gan bobl yn fwyaf uniongyrchol, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, gwasanaethau digartrefedd a chymorth mewn cymunedau. Ar drothwy'r Gyllideb hon, maent yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn sgil chwyddiant prisiau a chyflogau, galw cynyddol am wasanaethau, ac effaith gronnol y pwysau ar draws amrywiaeth o grantiau a rhaglenni penodol.

Yng nghyd-destun gostyngiadau mewn termau real yng nghyllid Llywodraeth Cymru, rydym wedi blaenoriaethu llywodraeth leol ac wedi darparu cynnydd uwch na chwyddiant yn 2027-28, ochr yn ochr â chyllid gwaelodol i ddarparu gwarchodaeth ychwanegol i awdurdodau a fyddai fel arall yn derbyn y codiadau lleiaf. Mae hyn yn darparu cymorth pwysig, ond bydd dal yn rhaid i gynghorau reoli pwysau sylweddol ar draws eu gwasanaethau.

Adlewyrchir y pwysau hyn mewn tystiolaeth ehangach gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (CIPFA), sy'n cydnabod bod y galw cynyddol am wasanaethau statudol, yn enwedig gofal cymdeithasol, gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau plant, yn rhoi pwysau ariannol eithriadol ar lywodraeth leol.

Mae pwysau hefyd o fewn gwasanaethau unigol sy'n cyfrannu at yr effaith gyffredinol. Mae tystiolaeth o'r sector tai a digartrefedd yn dangos hyn. Canfu adroddiad Materion Cartref 2026, pe bai cyllid y Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd yn aros fel ag y mae, roedd 70% o'r darparwyr a ymatebodd yn disgwyl y byddai'n rhaid lleihau capasiti eu gwasanaeth. Mae hyn yn dangos effaith bosibl pwysau ariannol ar y gwasanaethau hyn ac ar y sefydliadau sy'n eu darparu.

Mae'r effeithiau ar gydraddoldeb yn sylweddol. Mae Grŵp Cyllideb Menywod Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod menywod yn fwy dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus a'u bod yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, mae'n bosibl y gallai'r pwysau ar ofal cymdeithasol effeithio ar fenywod, a hynny fel defnyddwyr gwasanaethau ac fel gweithwyr. Mae'r pwysau ar ofal cymdeithasol a chymorth cymunedol yn gallu effeithio'n benodol ar bobl hŷn a phobl anabl, ac mae plant a theuluoedd yn dibynnu ar addysg a gwasanaethau ataliol a gaiff eu darparu'n lleol.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall pwysau ar lywodraeth leol effeithio ar wasanaethau atal. Mae'r cyfyngiadau ar y cyllid sydd ar gael yn golygu y bydd gweithredu rhai mesurau newydd, gan gynnwys agweddau ar ddigartrefedd, dyrannu tai cymdeithasol a diwygio diogelwch adeiladau, yn mynd i gymryd mwy o amser nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae perygl y bydd hyn yn arwain at oedi cyn cyflwyno rhai o'r manteision ataliol a'r arbedion posibl y bwriedir i'r diwygiadau hynny eu cyflawni yn y dyfodol.

Felly, mae'r cyllid ychwanegol i lywodraeth leol yn cynnig cymorth lliniaru ystyrlon mewn cyd-destun ariannol anodd iawn, ond ni ddylid ystyried bod hyn yn dileu'r pwysau a wynebir gan gynghorau.

Byddai mynd ymhellach yn golygu bod angen cymryd cyllid ychwanegol o rannau eraill o'r Gyllideb, gan arwain at effeithiau negyddol mwy o bosibl ar y bobl a'r gwasanaethau sy'n dibynnu arnynt. Yn y cyd-destun hwn, rydym o'r farn mai dyma'r dyraniad cyllid sy'n taro'r cydbwysedd gorau y gallwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Buddsoddi mewn gofal plant ar gyfer plant a theuluoedd

Mae babanod, plant a phobl ifanc wedi bod yn ystyriaeth bwysig drwy gydol y Gyllideb.

Mae tystiolaeth yn dangos mai plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol. Mae plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith a phlant sy'n byw mewn teuluoedd lle mae rhywun yn anabl yn wynebu mwy fyth o risg.

Mae hyn yn bwysig oherwydd bod pwysau ariannol ar deuluoedd yn rhyngweithio â chanlyniadau eraill. Gall penderfyniadau ynghylch gofal plant, addysg, tai, trafnidiaeth, bwyd a chymorth ariannol brys i gyd effeithio ar yr un plentyn neu'r un aelwyd.

Felly, mae'r llywodraeth wedi blaenoriaethu cydgrynhoi cyllid ar gyfer y ddarpariaeth bresennol a chyflwyno taflwybr clir o gyllid ar gyfer ehangu ein cynnig gofal plant ymhellach. Yn ogystal â phennu gwaelodlin costau ehangu blwyddyn lawn yn yr Ail Gyllideb Atodol, mae'r Gyllideb Ddrafft yn darparu £75m o gyllid adnoddau ychwanegol yn 2027-28 a £186m o gyllid adnoddau yn 2028-29 tuag at bolisi gofal plant y llywodraeth. Byddwn hefyd yn darparu £120m o fuddsoddiad cyfalaf dros dair blynedd mewn gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i wella cyfleusterau a chapasiti.

Gallai hyn arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol. Gall gofal plant fforddiadwy a hygyrch leihau costau i deuluoedd, cefnogi datblygiad plant a galluogi rhieni i ymgymryd â gwaith, hyfforddiant neu oriau gwaith ychwanegol. Yn yr un modd, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r mesurau costau byw yn y Gyllideb yn nodi bod gofal plant yn helpu o ran cyllid aelwydydd, cyflogaeth rhieni a chamau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant.

Mae'r penderfyniad gofal plant hefyd yn bwysig wrth ystyried effaith y Gyllideb ar fenywod. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyfraddau cyflogaeth yn dal i fod yn is ymhlith menywod na dynion a bod gwahaniaethau rhwng y rhywiau o hyd o ran cyflog a chyflogaeth.

Mae tystiolaeth allanol hefyd yn atgyfnerthu'r cysylltiad hwn. Mae Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru wedi nodi bod diffyg gofal plant fforddiadwy a'i argaeledd yn rhwystr allweddol i gydraddoldeb rhywedd, yn enwedig i famau, ac maent wedi tynnu sylw at gyfran anghymesur o gyfrifoldebau gofalu sy'n cael eu hysgwyddo gan fenywod.

Mae dewisiadau anodd hefyd i deuluoedd ar incwm is. Mae gostyngiadau mewn cymorth ariannol brys gan symud tuag at gymorth wedi'i dargedu'n well mewn rhai ardaloedd yn parhau i fod yn rhan o'r pecyn. Mae angen ystyried y rhain ochr yn ochr â gofal plant ac ymyriadau cadarnhaol eraill yn hytrach na thybio eu bod yn cael eu gwrthbwyso ganddynt.

Cyllido addysg, sgiliau a chyfleoedd i bobl ifanc

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer ysgolion yn mynd drwy awdurdodau lleol. Er gwaethaf y cyd-destun cyllidol heriol, rydym yn darparu cynnydd uwch na chwyddiant o 2.8% i lywodraeth leol, gan helpu awdurdodau lleol i gynnal ac i wella gwasanaethau addysg sy'n cefnogi ysgolion, dysgwyr ac athrawon.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hefyd yn diogelu'r cyllid sy'n mynd o'r adran Addysg yn uniongyrchol i ysgolion ac awdurdodau lleol. Rydym yn rhoi £418.3m o gyllid adnoddau yn uniongyrchol i ysgolion ac i awdurdodau lleol bob blwyddyn i wella cyrhaeddiad, i wella canlyniadau llythrennedd a rhifedd ac i ennyn gwelliant parhaus mewn ysgolion. Ar ben hynny, bydd £1.2m o fuddsoddiad cyfalaf dros dair blynedd yn gwella'r ystad addysg, o ofal plant i addysg drydyddol, gyda'r nod o godi safonau drwy ddarparu'r amodau gorau ar gyfer dysgu. Mae ein tystiolaeth yn dangos pam mae buddsoddiad addysgol a dosbarthiad y buddsoddiad hwnnw'n bwysig.

Mae tystiolaeth yn dangos bod gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau. Mae merched yn dal i gyflawni canlyniadau addysgol gwell na bechgyn ar lefel TGAU. Mae canlyniadau hefyd yn amrywio rhwng grwpiau ethnig, tra bo'r dystiolaeth yn tynnu sylw at bryder gwahanol yn ddiweddarach yn y cyfnod pontio i fod yn oedolyn. Roedd data dros dro o 2024 yn dangos bod menywod 16–24 yn fwy tebygol na dynion o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ffactor pwysig arall mewn canlyniadau addysgol. Mae hynny'n golygu na ellir ystyried buddsoddi mewn ysgolion ar wahân i incwm aelwydydd, bwyd, tai a'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd.

Mae effeithiau'r newidiadau i wahanol raglenni cyllido addysg ar fyfyrwyr, pobl ifanc ac aelwydydd incwm is wedi cael eu hystyried fel rhan o broses y Gyllideb hon. O ganlyniad i hynny, mae'r Gweinidogion wedi penderfynu diogelu'r cyllid ar gyfer cymorth cynhaliaeth myfyrwyr ac ar gyfer Medr.

Mae dal i fod pwysau sy'n effeithio ar rai rhaglenni addysg, ieuenctid a sgiliau. Mae'r cydbwysedd felly'n gynnil, mae'r pecyn yn cynnwys llawer mwy o amddiffyniad i gyfleoedd plant a phobl ifanc nag y byddai rhai opsiynau eraill, er nad yw'n dileu pob effaith.

Tai, digartrefedd a byw'n annibynnol

Mae'r maes tai yn dangos yn gwbl glir sut gall penderfyniad gwario mewn un rhan o'r llywodraeth effeithio ar ganlyniadau mewn rhan arall.

Mae tystiolaeth a ddatblygwyd drwy Adolygiad Gwariant Cymru yn dangos y gall tai diogel o ansawdd da gyfrannu at iechyd, annibyniaeth a llesiant ehangach. Mae'r Grant Cymorth Tai, atal digartrefedd, ôl-osod tai, tai cymdeithasol a diogelwch adeiladau hefyd yn gallu chwarae rhan ataliol drwy leihau digartrefedd, tai anniogel, oedi cyn rhyddhau o ysbytai a phwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae'r dystiolaeth honno wedi cyfrannu at y penderfyniadau a wnaed yn y Gyllideb hon. Rydym yn diogelu'r Grant Cymorth Tai sy'n arbennig o bwysig i bobl sydd eisoes yn agored i dlodi, ansicrwydd tai neu ddigartrefedd. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cydnabod bod angen canolbwyntio ar fuddsoddiad a fyddai'n atal rhagor o bobl rhag cyrraedd y pwynt lle mae angen y gwasanaethau hyn. Felly, mae ein buddsoddiad cyfalaf yn blaenoriaethu tai i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhagor o gartrefi fforddiadwy a symud ymlaen yn sylweddol i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol. Mae'r buddsoddiad hwn dros nifer o flynyddoedd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r sector tai, sy'n helpu i gefnogi cynllunio a chyflawni yn y tymor hirach. Ochr yn ochr â hyn, bydd buddsoddi mewn ôl-osod tai yn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol ac yn cyfrannu at ein hamcanion datgarboneiddio ehangach.

Nid yw ein hasesiad yn dweud yn syml bod mwy o fuddsoddiad mewn tai yn arwain at effaith gadarnhaol. Mae'r cyfeiriad cyffredinol

yn gadarnhaol iawn, ond mae dosbarthiad y budd-daliadau hynny ac effaith y gostyngiadau sydd ar ôl hefyd yn bwysig, yn enwedig i bobl hŷn, i bobl anabl ac i bobl sydd eisoes mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cydnabod pwysigrwydd diwylliant, chwaraeon a llesiant

Mae effaith gwario ar ddiwylliant a chwaraeon yn ymestyn y tu hwnt i fynediad at weithgareddau unigol. Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd ar draws y Gyllideb yn nodi bod diwylliant a chwaraeon yn rhan o dirwedd ataliol ehangach. Mae cymryd rhan yn gallu cefnogi llesiant corfforol a meddyliol, cysylltiadau cymdeithasol a hyder. Mae nofio gyda'r ysgol, gweithgareddau llesiant a'r celfyddydau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol lleol ymysg y gweithgareddau y nodwyd eu bod yn cyfrannu at atal a llesiant cymunedol. Rydym wedi ystyried y manteision ehangach hynny wrth wneud penderfyniadau am y Gyllideb.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi cyllid adnoddau ychwanegol ar gyfer diwylliant yn ogystal â chyllid i barhau i gyflwyno nofio gyda'r ysgol. Mae'r Gyllideb yn rhoi £2m ychwanegol ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yn 2027–28, gan gynyddu i £4m yn 2028–29, a £1.7m ychwanegol ar gyfer nofio yn 2027–28, gan gynyddu i £3m y flwyddyn ganlynol.

Caiff hyn ei ategu gan fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, a fydd yn cefnogi buddsoddiad mewn amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, lleoliadau celfyddydol, safleoedd hanesyddol a chyfleusterau diwylliannol cymunedol, ochr yn ochr ag asedau a chyfleusterau chwaraeon a gefnogir drwy Chwaraeon Cymru. Bydd grantiau cyfalaf yn galluogi sefydliadau i wella adeiladau, i ddatblygu cyfleusterau newydd ac i greu mannau mwy croesawgar a hygyrch i gynulleidfaoedd, i gyfranogwyr ac i gymunedau. Bydd y rhaglen hefyd yn cefnogi datblygiad Celf, gwaith ar gyfer Archif Genedlaethol a phrosiectau ymwelwyr a chymunedol dethol Cadw.

Gyda'i gilydd, mae i'r penderfyniadau hyn oblygiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, drwy fynediad at gyfleoedd nofio, chwaraeon a diwylliannol, ac ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol drwyddi draw. Maent hefyd yn cefnogi sefydliadau diwylliannol a chwaraeon i helpu mwy ar y cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Ceir dimensiwn cydraddoldeb pwysig. Gall cost, hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau bennu pwy sy'n gallu cymryd rhan mewn cyfleoedd diwylliannol a chwaraeon. Gallai buddsoddi mewn cyfleusterau mwy hygyrch ehangu cyfranogiad pobl a allai fel arall wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan. Mae hyn yn gallu bod yn arbennig o bwysig i aelwydydd incwm isel a phobl sy'n wynebu rhwystrau eraill rhag cymryd rhan.

Nid yw'r darlun yn gwbl gadarnhaol. Er mwyn gallu ailflaenoriaethu cyllid, gwnaed rhai arbedion mewn rhannau o'r dirwedd diwylliant a digwyddiadau ac mewn rhai gweithgareddau sy'n cefnogi cyfranogiad a chydraddoldeb. Mae'r pecyn cyffredinol yn rhoi buddsoddiad cyfalaf ac adnoddau sylweddol mewn diwylliant a chwaraeon, ond rydym yn cydnabod nad yw hyn yn dileu effaith pob gostyngiad unigol.

Cyflogaeth, sgiliau a chyfleoedd economaidd

Mae dimensiwn cydraddoldeb pwysig hefyd yn perthyn i uchelgais y llywodraeth i dyfu economi Cymru. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw canlyniadau cyflogaeth yn gyfartal ar draws y boblogaeth. Mae cyfraddau cyflogaeth menywod a phobl anabl yn is, ac mae gwahaniaethau hefyd rhwng grwpiau ethnig.

Mae'r canlyniadau hyn yn gysylltiedig â ffactorau eraill sy'n cael eu hystyried mewn rhannau eraill o'r asesiad hwn. Mae gofal plant

fforddiadwy yn gallu effeithio ar allu rhieni i weithio. Mae trafnidiaeth yn penderfynu a all pobl gyrraedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae sgiliau'n effeithio ar gynnydd ac enillion. Mae anabledd a chyfrifoldebau gofalu yn gallu creu rhwystrau ychwanegol.

Rydym ym ymrwymo mwy na £20m o gyllid adnoddau i sefydlu'r Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd a fydd yn cael ei arwain gan fusnesau, ochr yn ochr â buddsoddi mewn addysg a gofal plant. Mae strategaeth y Gyllideb yn ceisio ailgyfeirio buddsoddiad at y blaenoriaethau newydd.

Mae hyn yn rhan o her ehangach sy'n ymwneud â chynhyrchiant a chynaliadwyedd gwariant cyhoeddus. Mae'r IFS wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynhyrchiant er mwyn i lywodraethau allu darparu mwy o wasanaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus gwell gyda lefel benodol o wariant, gan rybuddio bod cyflawni gwelliannau parhaus yn heriol wrth gymharu â pherfformiad hanesyddol.

Serch hynny, mae rhai gostyngiadau'n parhau mewn rhaglenni cyflogadwyedd, sgiliau a chymorth busnes, a allai gael effaith anghymesur yn y tymor byr ar fusnesau bach a chanolig sy'n gyfran fawr o economi Cymru.

Mae graddfa a chymhlethdod yr her o ran pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn gofyn am ddull sy'n fwy eang na chymorth cyflogadwyedd yn unig. Er mwyn lliniaru'r effeithiau posibl, byddwn yn sicrhau lefel o gymorth i'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i weithio. Byddwn hefyd yn addasu cydbwysedd ein hymdrechion er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar fesurau sy'n cryfhau ochr y galw yn y farchnad lafur, ac sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy. Byddwn yn profi dulliau newydd a fydd yn creu swyddi ac yn cysylltu pobl yn well â'r swyddi newydd hynny. Ni fydd gwneud mwy o'r un peth yn cyflawni'r newid y mae pobl ifanc yn ei haeddu nac yn darparu'r cyfleoedd bywyd, y diogelwch a'r urddas sy'n dod yn sgil gwaith pwrpasol a gwerth chweil.

Mae asesu'r effaith gyffredinol felly'n gofyn i ni edrych nid yn unig ar gyfanswm y dyraniad ond ar sut targedir y buddsoddiad newydd. Dyma un o'r meysydd lle bydd yr effaith derfynol yn dibynnu'n drwm iawn ar gyflawni. Mae setliad gwell yn rhoi'r cyfle i liniaru'r pwysau, ond bydd y manteision yn dibynnu ar a fydd y cymorth yn cyrraedd y bobl a'r busnesau sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf.

Effeithiau trawsbynciol

Mynd i'r afael â thlodi a helpu gyda chostau byw

Mae effaith y Gyllideb ar bobl sy'n profi tlodi yn berthnasol i bron pob portffolio.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod plant yn arbennig o agored i dlodi incwm cymharol, gyda'r risgiau'n cynyddu ymhellach mewn aelwydydd heb waith a theuluoedd lle mae rhywun yn anabl.

Yn ôl y dystiolaeth costau byw a ystyriwyd ar gyfer y Gyllideb, mae ymyriadau sy'n gallu cefnogi cyllid aelwydydd yn cynnwys gofal plant, prydau ysgol am ddim, gwasanaethau cynghori, y Gronfa Cymorth Dewisol, Cynnal a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Mae'r pecyn yn cynnwys penderfyniadau cadarnhaol pwysig. Gall ehangu gofal plant leihau costau i deuluoedd a chefnogi cyflogaeth. Mae diogelu cymorth i fyfyrwyr yn osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar rai aelwydydd. Mae buddsoddi mewn tai, ôl-osod i leihau biliau ynni, a gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn darparu cymorth ehangach.

Ond mae dewisiadau anodd hefyd. Mae gostyngiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol a newidiadau i fathau eraill o gymorth yn golygu y gallai rhai aelwydydd sy'n profi caledi ariannol difrifol gael llai o gymorth nag o dan y trefniadau presennol.

Nid yw buddsoddiad sy'n helpu teuluoedd dros y tymor hirach o reidrwydd yn dileu effaith uniongyrchol lleihau cymorth mewn argyfwng i aelwyd nad yw'n gallu fforddio hanfodion heddiw. Mae angen i'r Gyllideb fod yn dryloyw ynghylch y naill a'r llall.

Cymunedau gwledig, cysylltedd a'r Gymraeg

Mae lle mae pobl yn byw yn gallu cael effaith fawr ar brofiadau pobl yn sgil penderfyniadau'r Gyllideb. Gall mynediad at swyddi, addysg, gwasanaethau iechyd a chyfleoedd eraill ddibynnu ar drafnidiaeth a chysylltedd digidol. Mae'r materion hyn yn gallu bod yn arbennig o berthnasol mewn cymunedau gwledig, lle mae'r pellteroedd yn fwy a lle gallai fod llai o wasanaethau.

Mae'r llywodraeth wedi dewis cefnogi cysylltedd, gan gynnwys darparu cyllid am flwyddyn lawn i'n gwasanaeth coets newydd rhwng y Gogledd a'r De. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd hefyd yn rhoi mwy o gapasiti i gefnogi blaenoriaethau gwledig, amaethyddol ac amgylcheddol.

Fodd bynnag, mae angen ystyried effeithiau gwledig ar draws portffolios. Gall newidiadau mewn trafnidiaeth, cymorth busnes, tai, diwylliant a gwasanaethau cyhoeddus gydgrynhoi yn yr un gymuned. Mae'r un peth yn wir am y Gymraeg, lle gall mynediad at dai, cyflogaeth, addysg, diwylliant a gwasanaethau lleol ddylanwadu ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â gwariant sydd wedi'i dargedu'n uniongyrchol at yr iaith.

Felly, mae ein hasesiad yn trin gwledigrwydd a'r Gymraeg fel ystyriaethau trawslywodraethol yn hytrach nag effeithiau sy'n perthyn i un portffolio yn unig.

Hinsawdd, natur a chenedlaethau'r dyfodol

Mae hinsawdd a natur hefyd yn ystyriaethau trawslywodraethol. Mae'r dewisiadau yn y Gyllideb hon yn gallu effeithio ar allyriadau, bioamrywiaeth, gwydnwch cymunedau a gallu Cymru i ymateb i newid amgylcheddol tymor hirach. Mae tai, trafnidiaeth, seilwaith, amaethyddiaeth a datblygu economaidd i gyd yn cyfrannu at hyn.

Mae'r gyllideb cyfalaf yn cynnwys targedu buddsoddiad mewn datgarboneiddio, yr economi gylchol ac adfer natur, ochr yn ochr â £10m o fuddsoddiad newydd ychwanegol mewn seilwaith gwefru cerbydau trydan bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf. Mae potensial i'r buddsoddiad mewn ôl-osod tai wella cartrefi ar yr un pryd â lleihau costau byw ac allyriadau.

Rydym hefyd yn sefydlu Cronfa Gwydnwch Hinsawdd i ddiogelu ac i flaenoriaethu'r cyllid sydd ei angen i gryfhau gwydnwch Cymru yn wyneb effeithiau newid hinsawdd, gan ailgyfeirio cyllid i ddarpariaeth rheng flaen ar atebion ar sail natur a hinsawdd. Bydd hyn yn rhoi ffocws cliriach i fuddsoddi mewn gwydnwch ac yn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y meysydd lle mae angen gweithredu i baratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac ymateb i hynny.

Mae'r rhain yn fuddsoddiadau hirdymor positif. Ond ceir gostyngiadau hefyd sy'n effeithio ar rai rhaglenni amgylcheddol, bioamrywiaeth ac sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Mae'r setliad cyffredinol cryfach ar gyfer Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd yn rhoi mwy o gapasiti i reoli rhai o'r pwysau hynny, heb ganiatáu inni ddod i'r casgliad ar hyn o bryd bod pob effaith ar lefel rhaglen wedi cael ei dileu.

Dyna pam mae ein hasesiad yn ystyried effeithiau amgylcheddol uniongyrchol penderfyniadau gwario a'u heffaith gronnol dros amser, sy'n cyd-fynd â'r dull tymor hirach sy'n ofynnol gan fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Asesiad cytbwys

Gyda'i gilydd, mae'r Gyllideb Ddrafft yn buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus a blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae iechyd, llywodraeth leol, gofal plant, addysg, tai, diwylliant a buddsoddiad cyfalaf tymor hirach i gyd yn cynnig cyfleoedd pwysig i wella canlyniadau. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos pam na fydd y manteision hynny'n cael eu dosbarthu'n gyfartal a pham na ellir gosod buddsoddiad ychwanegol mewn un maes yn erbyn gostyngiad yn rhywle arall.

I deulu sy'n cael trafferth gyda chostau gofal plant, gallai ehangu gofal plant a ariennir wneud byd o wahaniaeth. I berson anabl hŷn sy'n dibynnu ar addasiadau i aros yn annibynnol, gall gostyngiad mewn cymorth tai ataliol fod yn bwysicach. Gall person ifanc elwa o'r penderfyniad i ddiogelu cymorth i fyfyrwyr ar yr un pryd â gweld newidiadau i drafnidiaeth neu ddarpariaeth sgiliau. Gall menyw elwa o ehangu gofal plant ar yr un pryd a gweld effaith fel gweithiwr, gofalwr neu ddefnyddiwr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid yw'r profiadau gwahanol hynny'n gwrthddweud ei gilydd. Dyma'n union pam mae angen i asesiad o'r Gyllideb edrych ar draws penderfyniadau ac ar draws y llywodraeth.

Rydym felly'n asesu bod y newidiadau a wnaed wrth ddatblygu'r Gyllideb, ynghyd â buddsoddiad newydd mewn blaenoriaethau allweddol, wedi gwella effaith gyffredinol y pecyn. Ond mae rhai effeithiau pwysig heb eu datrys, ac mae hynny i'w ddisgwyl gyda setliad o ostyngiadau cyllid mewn termau real i Lywodraeth Cymru. Mae bod yn dryloyw am yr effeithiau hynny yn rhan bwysig o lunio cyllidebau ar sail tystiolaeth. Byddant yn parhau i gyfrannu at benderfyniadau polisi manwl a gweithredu wrth i'r Gyllideb symud ymlaen.

Penderfyniadau Gwario ag iddynt Effeithiau Negyddol neu Anghymesur

Mae'r cyd-destun ariannol anodd yn golygu na fu'n bosibl gwarchod pob maes gwariant. Er ein bod wedi ailystyried nifer o'r gostyngiadau a gynigwyd ac wedi rhoi buddsoddiad ychwanegol mewn meysydd blaenoriaeth, bydd rhai penderfyniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn cael effeithiau negyddol neu'n gallu effeithio ar rai grwpiau'n fwy nag eraill.

Rydym wedi ystyried yr effeithiau hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth ehangach a manteision pecyn y Gyllideb. Gall buddsoddiad ychwanegol mewn mannau eraill helpu i leihau rhywfaint o'r pwysau, ond nid ydym wedi tybio ei fod yn dileu effaith gostyngiad unigol lle mae'r bobl yr effeithir arnynt, natur y cymorth nac amseriad yr effaith yn wahanol.

Dyma rai o'r meysydd lle rydym wedi nodi risgiau penodol.

Cronfa Cymorth Dewisol

Gwyddom fod tlodi'n effeithio'n anghymesur ar aelwydydd â phlant, ar aelwydydd un person, ar bobl anabl ac ar aelwydydd y mae eu prif enillydd incwm yn dod o gymuned ethnig leiafrifol, ac felly maent yn fwy tebygol o fod mewn argyfwng ariannol heb unrhyw fath arall o gymorth.

Mae'r Gyllideb ehangach yn cynnwys mesurau sy'n ceisio dechrau ailweirio buddsoddiad at fesurau ataliol. Ceir buddsoddiadau a fydd yn gwella gwydnwch ariannol aelwydydd, gan gynnwys ehangu gofal plant, prydau ysgol am ddim, Cynnal, y Gronfa Gynghori Sengl a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Fodd bynnag, mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi £5m yn llai o gyllid i'r Gronfa Cymorth Dewisol ac yn cael gwared ar ei chyllid wrth gefn. Mae'r gostyngiad yn golygu llai o gyllid ar gyfer cymorth brys a llai o hyblygrwydd i ymateb os bydd y galw'n cynyddu yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn cydnabod y gallai'r penderfyniad hwn effeithio'n anghymesur ar bobl sydd eisoes yn wynebu caledi ariannol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o'i ystyried ochr yn ochr â'r dystiolaeth, sy'n dangos bod plant a theuluoedd sy'n cynnwys person anabl ymysg y rhai sy'n wynebu risg uwch o dlodi incwm cymharol.

Cymorth cyflogadwyedd

Gallai newidiadau i'r ddarpariaeth cyflogadwyedd hefyd effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau.

Mae pobl sy'n dibynnu ar gymorth cyflogadwyedd yn cynnwys pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, pobl sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith hirdymor, pobl anabl, gofalwyr, pobl sy'n wynebu colli eu swyddi a phobl sy'n byw ar incwm isel. Felly gallai newidiadau i argaeledd neu natur y cymorth hwn effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth, sgiliau, incwm aelwydydd a sicrwydd ariannol, yn enwedig i bobl sydd eisoes yn wynebu mwy o rwystrau rhag cael gwaith neu aros mewn gwaith.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod anfantais cyflogaeth eisoes yn disgyn yn anwastad. Mae'r dystiolaeth ar gydraddoldeb a ystyriwyd fel rhan o'r Gyllideb yn dangos y gwahaniaethau sydd eisoes yn bodoli mewn canlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd, rhyw ac ethnigrwydd.

Mae'r llywodraeth yn buddsoddi yn ei blaenoriaethau economaidd a chymorth ehangach i fentergarwch, ochr yn ochr â buddsoddi mewn gofal plant ac addysg sy'n gallu helpu pobl i gymryd rhan mewn gwaith. Fodd bynnag, ni fydd buddsoddiad economaidd newydd yn

disodli'n awtomatig y cymorth mae rhaglenni cyflogadwyedd sydd eisoes yn bodoli yn ei ddarparu i unigolion. Felly, mae risg y bydd llai o gymorth neu newid yn y cymorth yn ystod y cyfnod pontio wrth symud i drefniadau newydd, yn enwedig i bobl sydd eisoes yn wynebu rhwystrau rhag cael gwaith neu aros mewn gwaith. Bydd sut y caiff darpariaeth yn y dyfodol ei chynllunio a'i thargedu yn bwysig i liniaru'r effaith honno.

Rhaglenni hinsawdd, natur ac amgylcheddol

Mae rhai o'r dewisiadau sy'n ofynnol o dan y Gyllideb Ddrafft hefyd yn creu risgiau i'r cynnydd yng nghyswllt newid hinsawdd, natur a bioamrywiaeth. Ceir gostyngiadau ar gyfer gweithgarwch amgylcheddol a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Felly ceir risg y gallai'r cynnydd mewn rhai meysydd arafu, er bod y Gyllideb gyffredinol yn buddsoddi'n sylweddol i drawsnewid Cymru yn wlad garbon-is ac sy'n fwy gwydn.

Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol hirdymor newid hinsawdd. Mae dadansoddiad sy'n defnyddio tystiolaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn tynnu sylw at gostau diffyg gweithredu a phwysigrwydd gwneud dewisiadau effeithiol ynghylch lle mae angen ymyriad cyhoeddus i gefnogi datgarboneiddio.

Mae angen ystyried hyn yn erbyn sefyllfa gyfalaf arbennig o anodd. Serch hynny, mae'r llywodraeth yn gwneud buddsoddiadau positif yn y Gyllideb Ddrafft. Buddsoddir bron i £300m dros dair blynedd i gyfrannu at adfer a gwydnwch natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol. Mae £30m hefyd wedi cael ei ddyrannu i'r Rhaglen Genedlaethol Strategol ar Gerbydau Trydan dros dair blynedd. Bydd cyfalaf tai hefyd yn cefnogi datgarboneiddio drwy ôl-osod ac adeiladu cartrefi cymdeithasol newydd i safonau effeithlonrwydd ynni uchel.

Astudiaethau Achos
Tai - Cynnig sicrwydd a buddsoddi ar gyfer yr hirdymor

Penderfyniad

Rydym wedi blaenoriaethu tai fel un o'r buddsoddiadau mawr yn y Gyllideb hon, gan gydnabod yr angen i gynyddu'r cyflenwad tai a gwerth atal digartrefedd. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi £228m o gyfalaf ychwanegol dros dair blynedd i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd a datgarboneiddio'r stoc dai bresennol. Mae tai hefyd yn cael blaenoriaeth wrth ddyrannu Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ym mlynyddoedd olaf y cyfnod gwario. Mae hyn yn creu taflwybr lle mae'r buddsoddiad yn cynyddu ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r sector.

Ochr yn ochr â'r buddsoddiad cyfalaf hwn, rydym yn dyrannu £15m o gyllid adnoddau yn 2028–29 ar gyfer digartrefedd, yn benodol i helpu i hwyluso'r pwyslais ar ddull gweithredu mwy ataliol. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd ymyrryd yn gynharach i helpu i atal digartrefedd ac i leihau'r angen am ymyriadau mewn argyfwng.

Yn fwriadol, mae'r dull hwn yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd. Rhaid i raglenni tai gael piblinellau parhaus o dir, cynllunio, capasiti adeiladu a chyllid. Gall darparu taflwybr cliriach dros dair blynedd helpu partneriaid cyflawni i gynllunio ymlaen llaw a rhoi mwy o hyder i'r sector fuddsoddi.

Beth oedd y dystiolaeth yn ei ddweud wrthym

Roedd Adolygiad Gwariant Cymru wedi nodi bod tai yn allweddol er mwyn galluogi canlyniadau da yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol. Canfu fod tai gwael a digartrefedd yn gallu cynyddu risgiau iechyd, rhwystro byw'n annibynnol a chynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ar y llaw arall, gall tai diogel ac addas gefnogi annibyniaeth, atal a llesiant ehangach.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar. Mae atal digartrefedd yn gallu osgoi'r effaith fawr ar unigolion a theuluoedd a'r angen am ymyrraeth mewn argyfwng sy'n fwy dwys a chostus yn nes ymlaen. Mae tai diogel yn gallu lleihau'r galw ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gofal iechyd a gofal cymdeithasol brys, ac mae sefydlogrwydd tai yn gallu cefnogi ymgysylltiad plant ag addysg. Mae llety sefydlog hefyd yn gallu cefnogi pobl sy'n gadael carchar neu sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder.

Mae'r dystiolaeth hon wedi cyfrannu at y ffordd rydym yn ymdrin â chyllid digartrefedd, gan gynnwys diogelu cymorth ataliol drwy'r Grant Cymorth Tai a dyrannu £xx ychwanegol yn 2028-29 i helpu i hwyluso'r pwyslais ar ddull gweithredu mwy ataliol.

Mae tystiolaeth allanol yn atgyfnerthu pwysigrwydd costau tai i aelwydydd incwm isel. Canfu'r Resolution Foundation fod aelwydydd yn hanner isaf y dosbarthiad incwm yn gwario tua 22% o'u cyllidebau ar dai, o'i gymharu â 13% ar gyfer aelwydydd yn yr hanner uchaf.

Pam gwnaethom fuddsoddi

Roedd y dystiolaeth yn cefnogi blaenoriaethu tai er gwaethaf setliad cyfyngedig iawn. Mae'r achos dros fuddsoddi yn golygu mwy na dim ond darparu rhagor o gartrefi, mae'n golygu ymyrryd yn gynharach i atal digartrefedd. Bydd y £15m o gyllid adnoddau ychwanegol i ddigartrefedd yn 2028–29 yn helpu i symud at y dull ataliol hwn, gan gydnabod bod ymyrraeth gynharach yn gallu gwella canlyniadau

i bobl ar yr un pryd â lleihau'r angen am ymatebion drutach mewn argyfwng. Gall buddsoddi mewn tai a chymorth ataliol hefyd gyfrannu at iechyd, byw'n annibynnol, datgarboneiddio, cyflogaeth a sefydlogrwydd cymunedol.

Gan mai dim ond lefel gyfyngedig o gyllid cyfalaf sydd ar gael yn gyffredinol i Lywodraeth Cymru, nid yw'n bosibl cyflawni pob uchelgais gyda Chyfalaf Cyffredinol. Mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn fecanwaith arall i gefnogi buddsoddiad lle bydd angen ad-dalu'r cyllid, sy'n ategu buddsoddiadau cyfalaf confensiynol ac yn ein helpu i wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael.

Effeithiau cadarnhaol disgwyliedig

- Pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref - gall cymorth ataliol helpu pobl i gynnal llety sefydlog a lleihau'r angen am ymyriadau mewn argyfwng.
- Pobl sydd angen cartrefi fforddiadwy - cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Pobl hŷn a phobl anabl - gall tai addas gefnogi annibyniaeth a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal.
- Iechyd a gofal cymdeithasol - gall atal digartrefedd a gwella tai leihau'r galw am wasanaethau argyfwng, cefnogi gwaith atal a chyfrannu at ryddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty.
- Plant a theuluoedd – gall mwy o sefydlogrwydd tai i blant a theuluoedd gefnogi llesiant ac ymgysylltiad ag addysg.
- Aelwydydd a'r amgylchedd - gall ôl-osod wella effeithlonrwydd ynni ar yr un pryd â chyfrannu at ddatgarboneiddio.
- Adeiladu ac economïau lleol - mae piblinell buddsoddi cliriach dros nifer o flynyddoedd yn rhoi mwy o sicrwydd i bartneriaid cyflawni, i fusnesau ac i gadwyni cyflenwi.

Gofal plant - Newid sylweddol mewn buddsoddiad

Penderfyniad

Gofal plant yw un o ymrwymiadau newydd mwyaf y Gyllideb Ddrafft ac mae'n cynrychioli ailflaenoriaethu sylweddol Rhaglen Lywodraethu newydd y llywodraeth. Roedd yn golygu bod yn rhaid gwneud dewisiadau mewn rhannau eraill o'r Gyllideb i ddarparu'r cyllid i flaenoriaethu'r rhaglen hon.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi £75m o gyllid adnoddau ychwanegol yn 2027-28 a £186m o gyllid adnoddau yn 2028-29 i barhau i ehangu polisi gofal plant y llywodraeth.

Mae hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed eisoes yn yr ail gyllideb atodol a'r bwriad yw cynnal y ddarpariaeth bresennol a galluogi ehangu pellach. Bydd angen i raddfa a chyflymder y ddarpariaeth ystyried cyfranogiad, parodrwydd awdurdodau lleol, capasiti darparwyr a'r gweithlu gofal plant.

Beth oedd y dystiolaeth yn ei ddweud wrthym

Mae Sefydliad Bevan yn nodi bod gofal plant fforddiadwy o ansawdd da yn ffordd o bwysig o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Gall gefnogi canlyniadau plant ar yr un pryd â helpu rhieni i gynyddu incwm eu haelwyd drwy gyflogaeth. Serch hynny, mae ei ymchwil yn nodi heriau parhaus i deuluoedd yng Nghymru o ran dod o hyd i ofal plant sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch.

Ceir dimensiwn rhywedd pwysig hefyd. Mae tystiolaeth yn dangos gwahaniaethau parhaus rhwng menywod a dynion o ran cyflogaeth ac enillion. Mae Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith

Cydraddoldeb Menywod Cymru wedi nodi bod argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant yn rhwystr allweddol i gydraddoldeb rhywedd, gan adlewyrchu'r gyfran anghymesur o gyfrifoldebau gofalu sy'n cael eu hysgwyddo gan fenywod.

Mae ymchwil gan y Resolution Foundation hefyd yn nodi mai gofal plant yw un o'r rhwystrau sy'n effeithio ar allu rhieni i gynyddu cyflogaeth ac enillion. Mae ei ddadansoddiad yn awgrymu bod mynd i'r afael â thlodi plant drwy gyflogaeth yn gofyn am weithredu ar draws gofal plant, trafnidiaeth a sgiliau yn hytrach nag unrhyw un ymyriad ar ei ben ei hun.

Pam gwnaethom fuddsoddi

Mae gofal plant yn dangos penderfyniad y llywodraeth i ailgyfeirio adnoddau at flaenoriaeth newydd, yn hytrach na dim ond parhau â'r hen batrymau gwario.

Mae graddfa'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu'r uchelgais am newid sylweddol mewn darpariaeth gofal plant. Mae'n cydnabod y gall gofal plant gyfrannu ar yr un pryd at ganlyniadau i blant, cyllid aelwydydd, cyflogaeth a'r economi ehangach.

Effeithiau cadarnhaol disgwyliedig

- Plant a babanod - mwy o fynediad at ddysgu, datblygiad a chyfleoedd cymdeithasol cynnar.
- Teuluoedd sy'n wynebu pwysau costau - gall costau gofal plant is gynyddu incwm gwario aelwydydd.
- Menywod - gall gwell argaeledd gofal plant leihau un o'r rhwystrau rhag cyflogaeth a chynyddu oriau gwaith.
- Rhieni a gofalwyr - mwy o hyblygrwydd i weithio, i hyfforddi neu i symud ymlaen mewn cyflogaeth.
- Yr economi - gall cael rhagor o bobl yn y farchnad lafur helpu i sicrhau bod mwy o weithlu ar gael a chefnogi gweithgarwch economaidd.
- Darparwyr a gweithwyr gofal plant - mae darpariaeth estynedig yn creu cyfleoedd ond mae hefyd yn cynyddu pwysigrwydd cynnal digon o weithlu a chapasiti darparwyr.

Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus

Penderfyniad

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi adnodd o £25m ar gyfer cronfa trawsnewid, gan gynnwys £5m i gefnogi trawsnewid yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru a £20m i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach.

Mae hwn yn fath gwahanol o fuddsoddiad i lawer o'r dyraniadau a ddisgrifir mewn mannau eraill yn y datganiad hwn. Ei bwrpas yw buddsoddi nawr mewn newidiadau a all wella cynhyrchiant, moderneiddio gwasanaethau a lleihau pwysau ar wariant yn y dyfodol.

Beth oedd y dystiolaeth yn ei ddweud wrthym

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na fydd ymateb i bwysau ariannol drwy sawl rownd o arbedion tymor byr, ar ei ben ei hun, yn rhoi gwasanaethau cyhoeddus ar sylfaen gynaliadwy. Er mwyn gwella cynhyrchiant mae'n rhaid i sefydliadau ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu, gan gynnwys cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol, lleihau'r dyblygu a defnyddio data a thechnoleg yn well.

Mae gwaith CIPFA ar drawsnewid y sector cyhoeddus yn dangos y cyfleoedd a ddaw drwy drawsnewid digidol, awtomeiddio ac ail-

ddylunio modelau gweithredu, yn enwedig lle mae pwysau ar sefydliadau i gynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd achosion busnes clir, rheoli risg yn effeithiol a dangos bod manteision disgwyliedig trawsnewid yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd.

Yn yr un modd, mae gwaith CIPFA ar wasanaethau cyhoeddus lleol yn pwysleisio bod cydweithio, strategaethau cyffredin, a data ariannol a gweithredol o ansawdd da yn ffyrdd o ddarparu gwasanaethau'n fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn rhybuddio y gall gymryd amser i wireddu manteision economaidd buddsoddiad cyhoeddus, a'u bod yn ansicr yn eu hanfod. Mae hynny'n atgyfnerthu pwysigrwydd mesur a yw buddsoddiad trawsnewid yn arwain at welliannau go iawn mewn cynhyrchiant a chanlyniadau.

Pam gwnaethom fuddsoddi

Ein huchelgais yw symud adnoddau at ddarparu ar y rheng flaen a gwella canlyniadau heb dybio bod yn rhaid diwallu'r holl bwysau ariannol drwy wario mwy yn barhaus.

Yn aml mae angen buddsoddi mewn trawsnewid cyn bod modd gwireddu arbedion neu welliannau. Mae cronfa benodol yn rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu newidiadau yn hytrach na disgwyl bod y trawsnewid yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan wasanaethau sydd eisoes dan bwysau.

Felly, bydd angen i'r gronfa ddangos gwelliannau mesuradwy mewn cynhyrchiant, ansawdd gwasanaethau neu ganlyniadau. Ni ddylai trawsnewid olygu dim ond symud costau i rywle arall na'i gwneud yn anoddach cael gafael ar wasanaethau.

Effeithiau cadarnhaol disgwyliedig

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus - mae potensial i wasanaethau sydd wedi'u hail-ddylunio fod yn symlach, yn fwy hygyrch ac yn canolbwyntio'n well ar anghenion pobl.
- Gwasanaethau rheng flaen - gall llai o waith gweinyddol diangen a dyblygu greu mwy o gyfle i ddiogelu'r ddarpariaeth.
- Gweithlu'r sector cyhoeddus - gall prosesau a thechnoleg well olygu llai o weithgarwch aneffeithlon a galluogi pobl i ganolbwyntio ar waith gwerth uwch.
- Trethdalwyr - gall gwella cynhyrchiant helpu arian cyhoeddus i gyflawni mwy a lleihau pwysau ar wariant yn y dyfodol.
- Cyllidebau'r dyfodol - gallai trawsnewid llwyddiannus greu mwy o wydnwch cyllidol ac adnoddau ar gyfer blaenoriaethau.

Y Camau Nesaf

Mae'r Datganiad hwn ar Effaith y Gyllideb yn adlewyrchu ein hasesiad adeg cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft. Nid dyma ddiwedd y broses asesu – ac nid y Gyllideb Ddrafft yw diwedd y gwaith o wella'r ffordd mae arian yn cael ei wario yng Nghymru. Bydd y sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth o'r effeithiau posibl yn parhau i ddatblygu wrth i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chraffu ac wrth i ragor o dystiolaeth ddod i law.

Mae cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn dechrau cyfnod pwysig o graffu gan y Senedd. Bydd pwyllgorau'n archwilio'r cynlluniau gwariant ar draws y llywodraeth ac yn cael tystiolaeth gan randdeiliaid, sefydliadau a chymunedau o Fôn i Fynwy. Byddwn yn ystyried y dystiolaeth a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith craffu hwnnw wrth inni adolygu pecyn y Gyllideb cyn y Gyllideb Derfynol.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, byddwn yn parhau i archwilio effeithiau cronnol penderfyniadau gwario ar draws y llywodraeth. Byddwn yn rhoi sylw penodol i feysydd lle mae ein hasesiad wedi nodi pwysau neu lle mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i ganlyniadau tymor hirach. Bydd ein meysydd ffocws yn cynnwys tlodi a chostau byw, atal, newid hinsawdd a natur, ac effaith ein hagwedd at gynhyrchiant a thrawsnewid. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried sut mae penderfyniadau'n effeithio ar grwpiau penodol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, menywod, pobl hŷn, pobl anabl a chymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Byddwn yn defnyddio'r cyfnod rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol i ddatblygu rhagor ar y dystiolaeth sy'n sail i'r asesiad hwn a phrofi'r casgliadau sydd yn y datganiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw newidiadau i gynlluniau gwario yn creu effeithiau newydd, yn lleihau'r rheini sydd eisoes wedi'u nodi neu'n galw am ragor o fesurau lliniaru.

Bydd yr asesiad hwn yn rhan o'r dystiolaeth a ystyrir gan Weinidogion wrth wneud penderfyniadau cyllidebol terfynol. Bydd yn eistedd ochr yn ochr â'r ystyriaethau ariannol, strategol, cyfreithiol a chyflawni sy'n sail i'r penderfyniadau hynny. Pan fydd y dystiolaeth yn dangos effaith sylweddol neu anghymesur, bydd Gweinidogion yn gallu ystyried a yw camau pellach yn briodol cyn cytuno ar y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull ehangach sydd eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer Cyllideb 2027-28, lle mae ystyried yr effaith yn cyd-fynd â rhwymedigaethau statudol y llywodraeth a phenderfyniadau ehangach ynghylch y Gyllideb.

Mae arnom hefyd eisiau bod yn fwy tryloyw am yr asesiad cronnol ei hun. Mae'r matrics effeithiau cronnol a ddatblygwyd ar gyfer y Gyllideb hon yn declyn newydd sy'n esblygu. Byddwn yn parhau i'w fireinio dros y misoedd nesaf er mwyn i bobl allu gweld yn gliriach sut mae effeithiau ar draws gwahanol feysydd gwariant wedi cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariad i Ddatganiad Effaith y Gyllideb ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol. Bydd yn egluro sut mae ein hasesiad wedi datblygu, yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed ers y Gyllideb Ddrafft ac yn nodi ein dealltwriaeth ddiweddaraf o fanteision, cyfaddawdu a gweddill effeithiau'r Gyllideb yn ei chyfanrwydd.